Blackboard

Creu Cysylltiadau Offerynnau

Gallwch helpu myfyrwyr gael mynediad at yr hyn sydd eu hangen arnynt drwy ychwanegu dolenni cyswllt at offerynnau a ddefnyddir yn fynych mewn rhannau eraill o'ch cwrs. Er enghraifft, ychwanegu cysylltiadau at My Grades ac Email i Ddewislen y Cwrs. Neu mewn ardaloedd cynnwys, gosod dolenni cyswllt yn agos at gynnwys cyfarwyddiadol.

Creu cyswllt ar Ddewislen y Cwrs

I ddechau, ewch i Ddewislen y Cwrs a chliciwch ar arwydd adio yn y ddewislen gyfarwyddiadol:

Dewiswch Tool Link o'r gwymplen:

Ar gyfer y cyswllt newydd, rhowch enw byr iddo, dewiswch y math o offeryn a thiciwch y blwch wrth ymyl Available to Users:

Ar ôl i chi wneud hyn, cliciwch ar y botwm cyflwyno.

Dylai'r cyswllt newydd ymddangos ar waelod dewislen y cwrs. Os hoffech ei symud ymhellach i fyny'r ddewislen, cliciwch ar ochr chwith yr eitem ddewislen a llusgwch hi i fyny neu i lawr hyd nes ei bod yn y lle cywir:

Creu cyswllt at offeryn mewn Ardal Gynnwys

Gwnewch yn siŵr eich bod yn yr ardal gynnwys berthnasol, a dewiswch Tools:

Dewiswch Tools Area o'r gwymplen. Bydd y cyswllt hwn yn caniatáu i fyfyrwyr gael mynediad ar yr HOLL offerynnau sydd ar gael:

Rhowch enw perthnasol i gyswllt yr offeryn a rhowch yr opsiynau angenrheidiol i mewn megis argaeledd a chyfyngiadau dyddiad/amser:

Ar ôl i chi orffen cliciwch ar y botwm Submit.

Gwybodaeth adnabod ateb unigryw: #1905
Awdur: : Helen
Diweddariad diwethaf: 2016-10-24 17:19

(c) 2021 Swansea University Web Team <myunihub@swansea.ac.uk> | 22-04-2021 22:11